PROTOCOL ARFER GORAU TPC 2D

GWRANDAWIADAU PREIFAT

Cyflwyniad

1. Bydd gwrandawiad y Tribiwnlys fel arfer yn digwydd yn gyhoeddus, ac mae'n agored i unrhyw un i fod yn bresennol, gan gynnwys y wasg.

Deddfwriaeth

- Rheol 30(3) o Reoliadau Ardrethiant Annomestig (Newid i Restrau ac Apelau) (Cymru) 2005 (OS 2005/758)
- Rheol 25(3) o Reoliadau Dreth Gyngor (Newid i Restrau ac Apelau) 1993 (OS 2005/291)

> *"Bydd y gwrandawiad yn digwydd yn gyhoeddus, oni bai bod y tribiwnlys prisio yn gorchymyn fel arall ar gais parti, ac yn fodlon y byddai buddiannau'r parti hynny yn cael eu heffeithio'n niweidiol."*

Rheol 37(3) o Reoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru 2010 (OS 2010/713)

> *"Mae'n rhaid i'r gwrandawiad ei gynnal yn gyhoeddus, oni bai bod y Panel Apêl yn gorchymyn fel arall ar gais parti ac ar ei fodloni y byddai buddiannau'r parti hynny yn cael ei heffeithio'n niweidiol gan wrandawiad cyhoeddus."*

Gwrandawiadau Preifat

2. Gall unrhyw barti ofyn am wrandawiad preifat - sef 'gwrandawiad mewn camera'.

3. Dylid cyflwyno cais am wrandawiad preifat i'r Tribiwnlys/Panel Apêl yn gyhoeddus, gan esbonio pam fod y cais yn cael ei wneud.

4. Bydd y Tribiwnlys/Panel Apêl yn ystyried sylwadau'r parti(on) arall.

5. Gall aelodau'r Tribiwnlys/Panel Apêl ymneilltuo i ystyried y cais.

6. Gall seiliau ar gyfer gwrandawiad neu ran wrandawiad sydd i'w gynnal yn breifat fod yn:

- Gwybodaeth gyfrinachol;
- Er mwyn gwarchod budd unrhyw blentyn neu berson sy'n agored i niwed, neu
- Tribiwnlys/Panel Apêl yn ystyried ei fod yn angenrheidiol er budd cyfiawnder

7. Lle penderfynir y bydd y gwrandawiad yn mynd ymlaen yn breifat, gall y Tribiwnlys/Panel Apêl roi cyfarwyddyd ynghylch pwy sy'n cael mynychu a phwy sydd ddim.

8. Rhaid i'r penderfyniad i gynnal gwrandawiad neu ran wrandawiad yn breifat gael ei gofnodi yn llawn, gyda rhesymau a'i lofnodi gan yr aelod sy'n llywyddu.

9. Bydd penderfyniad y Tribiwnlys/Panel Apêl fel arfer yn cael ei wneud yn gyhoeddus hyd yn oed os yw'r gwrandawiad wedi cael ei gynnal yn breifat.